**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO - DYDD IAU, 28 GORFFENNAF 2022 DYDD IAU, 28 GORFFENNAF 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors L. Winnett
P. Baldwin
D. Bevan
J. Gardner
J. Hill
G. Humphreys
D. Wilkshire

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Codwyd y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br>Cynghorydd D. Wilkshire<br>Eitem Rhif 5 – Adroddiad Ceisiadau Cynllunio – Cais Rhif C/2022/0081 – Tir ger Tŷ Coed, Sycamore Drive, Rasa, Glynebwy – Annedd ar Wahân. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedwyd na fyddai'r Cynghorydd Wilkshire yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu bleidlais. | |
| **No. 3** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd W. Hodgins. | |
| **No. 4** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>Cynigiwyd ac eiliwyd y cynhelir cyfarfodydd y dyfodol am 10.00 a.m.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 5** | **<u>ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**<br><br><u>Cais Rhif C/2022/0081</u><br><u>Tir ger Tŷ Coed, Sycamore Drive, Rasa, Glynebwy</u><br><u>Ty ar Wahân</u><br><br>Mewn pleidlais, pleidleisiodd 4 Aelod o blaid argymhelliad y swyddog a phleidleisiodd 2 Aelod yn erbyn argymhelliad y swyddog, Felly<br><br>PENDERFYNWYD **<u>RHOI</u>** caniatâd cynllunio.<br><br>Ni chymerodd y Cynghorydd Wilkshire ran yn y bleidlais.<br><br><u>Cais Rhif C/2021/0290</u><br><u>Tir ger Park Hill Road, Tredegar</u><br><u>Amrywio Amod 1 (Ymestyn oes caniatâd) caniatâd cynllunio C/2015/0237 (datblygiad newydd ar gyfer 141 annedd)</u><br><br>Dywedodd y Swyddog Cynllunio y dylai'r swm o £350,000 a nodir yn 5.3 y cais yng nghyswllt swm gohiriedig i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau ar warchodfeydd natur lleol fod yn £35,000.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unfrydol **<u>RHOI</u>** caniatâd cynllunio.<br><br><u>Cais Rhif C/2021/0329</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Tir ger Park Hill, Park Hill Road, Tredegar<br>Adeiladu tair annedd newydd ar wahân a gaiff eu gwasanaethu gan dramwyfa newydd a gaiff eu rhannu gyda darpariaeth parcio ar gyfer 2 car ar bob llain; yn cynnwys tirlunio, gwasanaethau a gwaith gwella priffyrdd oddi ar y safle.<br><br>Adroddwyd y cafodd y cais hwn ei **OHIRIO.**<br><br>Cais Rhif C/2022/0100<br>Tir i'r Gogledd o Uned 33, Stad Ddiwydiannol Rasa, Rasa<br>Codi adeilad ar gyfer defnydd B1/B2/B8 i ddarparu chwe uned, ynghyd â lleoedd parcio cysylltiedig, mynedfa a stôr beiciau<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol **RHOI** caniatâd cynllunio. | |
| **No. 6** | **APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS GORFFENNAF 2022**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **DIWEDDARIAD APÊL CYNLLUNIO: 14 RHYD CLYDACH, BRYNMAWR**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi penderfyniad yr apêl ar gyfer cais cynllunio C/2021/0157. | |
| **No. 8** | **DIWEDDARIAD APÊL CYNLLUNIO: DAN-Y-BRYN, HEOL CASNEWYDD, POCHIN, TREDEGAR**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi penderfyniad yr apêl ar gyfer cais cynllunio C/2021/0095. | |
| **No. 9** | **RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 1 MEHEFIN 2022 A 8 GORFFENNAF 2022** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 10** | **<u>GWYBODAETH PERFFORMIAD CHWARTEROL CHWARTER 3 : HYDREF I RHAGFYR 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 11** | **<u>MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH A HYFFORDDIANT AELODAU</u>**<br><br>Adroddwyd y sesiynau gwybodaeth/hyfforddiant dilynol i aelodau:<br><br>• Sesiwn Gwybodaeth ar gyfer rhai heb fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio – 19 Medi 2022, sydd hefyd ar agor i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.<br><br>• Sesiwn Gwybodaeth ar Orfodaeth i'w drefnu ym mis Medi gan na chafodd ei gwblhau fel rhan o'r hyfforddiant gorfodol ym mis Gorffennaf.<br><br>Nodwyd a derbyniwyd y sesiynau gwybodaeth/hyfforddiant dilynol uchod ar gyfer aelodau. | |
| **No. 12** | **<u>DIWEDDARIAD ACHOS GORFODAETH</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>***PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).*** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cydymffurfiaeth.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at unigolyn neilltuol a nodi’r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |